**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Rhagfyr 2021

Annwyl Peredur,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor i roi tystiolaeth ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ('y Bil'). Codwyd nifer o gwestiynau yn eich llythyr ac rwy'n falch o ddarparu atebion a gwybodaeth bellach.

**C. Y costau a briodolir i'r Comisiwn newydd – mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y Comisiwn yn rheoli cyllideb o oddeutu £500 miliwn y flwyddyn. A fyddai modd i chi ddarparu manylion ynghylch y risgiau ariannol eraill sy'n gysylltiedig â'r Bil, o safbwynt Llywodraeth Cymru, a hynny yn ôl maes cost, ynghyd â dadansoddiad o sut y cyfrifwyd pob maes cost?**

Wrth i'r Comisiwn gael ei weithredu'n gyflym, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n effeithio ar y tybiaethau a wnaed i amcangyfrif costau cyffredinol y Comisiwn o ran sefydlu'r Comisiwn a chostau parhaus. Y tair risg ariannol mwyaf sy'n gysylltiedig â'r Bil yw staffio, TG a lleoliad. Mae'r meysydd hyn yn destun ansefydlogrwydd sylweddol posibl wrth i benderfyniadau gael eu gwneud. Dadansoddir y costau fel a ganlyn:

| | Costau pontio | Yn barhaus |
|---|---|---|
| | Cyfanswm £m | |
| Costau staff | 0.5 | 13.0 |
| Costau TG - cyfalaf | 4.9 | 5.2 |
| Costau lleoliad - cyfalaf | 1.8 | 0.3 |

Y risgiau allweddol a allai effeithio ar y costau hyn yw:

- <u>COVID</u> - sydd wedi tanseilio'r rhagdybiaethau mewn perthynas â'r math o ofod swyddfa sydd ei angen ar sefydliadau. Bydd angen i'r penderfyniadau ynghylch lleoliad gymryd i ystyriaeth effaith COVID a newidiadau cymdeithasol ehangach neu bydd gan y Comisiwn ofod swyddfa drud a/neu anaddas. Mae COVID hefyd



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yn sbarduno galw cynyddol am galedwedd TG a sgiliau arbenigol gan gynyddu costau staffio a TG.

- Lleoliad - mae'n rhaid ystyried lleoliad presennol CCAUC a gweithlu Llywodraeth Cymru. Gallai adleoli o dde-ddwyrain Cymru (er ei fod efallai'n arbed arian i ddechrau) effeithio'n sylweddol ar nifer y staff sy'n trosglwyddo i'r sefydliad, gan gynyddu costau recriwtio a hyfforddi staff yn sylweddol.

- Strategaeth TG - nid yw penderfyniadau allweddol wedi'u gwneud eto ac felly mae'n debygol y bydd rhai tybiaethau cychwynnol o ran costau yn newid wrth i ddewisiadau'n ymwneud â systemau a phrosesau gael eu cwblhau.

Ceir dadansoddiad pellach ar gyfer costau parhaus yn ymwneud â staff a TG yn y cwestiynau canlynol. Yn ogystal, ceir rhagor o fanylion am sut y cyfrifwyd yr amcangyfrifon yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol.

Fel yr amlinellwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, pan gaiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio ar ôl Cyfnod 2, yn unol â'r weithdrefn safonol, byddaf yn sicrhau bod yr holl amcangyfrifon cost yn cael eu hadolygu yn erbyn y penderfyniadau gweithredu diweddaraf er mwyn rhoi'r amcangyfrifon mwyaf diweddar o’r costau.

Mae dwy risg ariannol eang arall yn gysylltiedig â'r Bil yr oeddwn eisiau sôn amdanynt, gan nad oes modd eu mesur ar hyn o bryd. Dyma gostau'r pwerau newydd y mae'r Bil yn eu rhoi i'r Comisiwn ac a fydd costau ychwanegol i gyrff yn y sector addysg drydyddol o ganlyniad i'r Bil neu weithredoedd y Comisiwn. Yn y ddau achos, y risg ariannol yw y byddai'r Bil yn gosod costau ychwanegol neu ormodol ar naill ai'r Comisiwn neu ddarparwyr yn y sector. Er nad yw'n bosibl mesur y risgiau hyn eto gan y byddant yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn unwaith y bydd wedi'i sefydlu, rydym yn parhau i fonitro ac ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau bod unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir o ganlyniad i’r Bil yn gwbl angenrheidiol ac yn cael eu cadw mor isel â phosibl.

Bydd y penderfyniadau a wneir yn ystod y cyfnod pontio yn effeithio ar yr holl risgiau ariannol a nodir uchod a hoffwn nodi eto, fel y dywedais yn y Pwyllgor, y bydd y costau hyn yn cael eu rheoli'n ofalus. O ran sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol, mae tîm rhaglen addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wedi'i sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd y tîm hwn yn rheoli'r gwaith o gyflawni'r Bil ac yn goruchwylio'r gweithgarwch deddfwriaethol, gweithredol ac adnoddau dynol etc sy'n angenrheidiol i sefydlu'r Comisiwn. Bydd hefyd yn rheoli risgiau ehangach. Yn ogystal, mae nifer o reolaethau eraill ar waith i reoli risgiau'r prosiect:

- Yn fewnol ac yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, bydd y rhaglen i sefydlu'r Comisiwn newydd yn cael ei hadolygu'n fisol fel rhan o drefniadau rheolaeth ariannol a chyfrifyddu arferol Llywodraeth Cymru. Wedyn caiff cynnydd yn erbyn y cynllun ei ystyried gan y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes a'i adolygu o bryd i'w gilydd gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac, os oes angen, ar lefel uwch gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru. Gall y broses hon fod yn destun adolygiad dilynol gan Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

- Fel y soniwyd yn y Pwyllgor rwyf hefyd wedi sefydlu Bwrdd Strategaeth a Gweithredu, yr wyf yn ei gadeirio. Mae aelodaeth y Bwrdd hwn yn dod o blith rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o'r sector addysg drydyddol. Bydd y Bwrdd yn cydweithio gan ddarparu cyngor arbenigol i lywio a chefnogi'r broses ddiwygio a throsglwyddo a'r gwaith o weithredu'r Bil a sefydlu'r Comisiwn.

**C. Costau staff yw'r gost fwyaf sy'n wynebu'r Comisiwn newydd. Bydd cyfanswm y costau hyn ychydig yn llai na £13 miliwn y flwyddyn o 2023-24 ymlaen. Wrth roi tystiolaeth, gwnaethoch ddweud mai dim ond £3.3 miliwn o'r costau hynny sy'n gostau newydd, a bod y balans o £9.7 miliwn yn ymwneud â staff presennol HEFCW a Llywodraeth Cymru. Gwnaethoch gytuno i ddarparu dadansoddiad o'r £13 miliwn ar gyfer Llywodraeth Cymru a staff y Comisiwn.**

Mae'r model gweithredu targed lefel uchel yn rhagdybio y bydd gan y Comisiwn uchafswm o 169 o staff, gan gynnwys 53 o CCAUC. Mae'r costau staff yn cynnwys holl staff presennol CCAUC a staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar hyn o bryd ar y swyddogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil. Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch staffio a rolau, ac felly gwnaed y tybiaethau hyn i amcangyfrif y costau. Mae'r ffigur o 169 yn cynrychioli'r uchafswm o ran staff sydd eu hangen i redeg y Comisiwn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau cyfredol. Dyma ddadansoddiad o'r costau staff o £13m:

| | Staff | | Cost (£m) | Nifer y staff |
|---|---|---|---|---|
| Comisiwn | Presennol | Staff CCAUC: | £3.2 | 53 |
| | Presennol | Staff sy'n trosglwyddo o Lywodraeth Cymru: | £6.5 | 110 |
| | Newydd | Staff ychwanegol ar gyfer TG, Adnoddau Dynol a Chyllid: | £0.4 | 6 |
| LIC | Newydd | Staff newydd Tîm Nawdd Llywodraeth Cymru: | £2.9 | 45 |
| | | **Cyfanswm** | **£13.0** | **214** |

**C. Rhagwelir y bydd costau TG parhaus ar gyfer y Comisiwn newydd yn fwy na £5 miliwn y flwyddyn o 2023-24 ymlaen. Gwnaethoch ddarparu dadansoddiad o'r costau TG a amcangyfrifir mewn pedwar prif gategori: costau datblygu meddalwedd (£0.15 miliwn); costau diogelwch ac ail-ardystio blynyddol (£0.03 miliwn); costau defnyddwyr (£4.28 miliwn); a chostau ymgynghori (£0.69 miliwn) (cyfanswm o £5.15 miliwn). Gwnaethoch awgrymu y byddai angen talu rhai o'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ni waeth beth fo'r sefyllfa o ran y broses ddiwygio, yn sgil yr angen i uwchraddio'r systemau presennol. A fyddai modd i chi ddarparu dadansoddiad o'r costau 'busnes fel arfer' a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r broses ddiwygio? Hefyd, a wnewch chi nodi'r risgiau a allai effeithio ar y costau hyn?**

Nodir isod y dadansoddiad o'r costau 'busnes fel arfer' parhaus a'r gymhariaeth â'r 'costau parhaus' ar gyfer y Comisiwn. Mae sefydlu'r Comisiwn yn gyfle i sicrhau bod y system TG sydd ar waith yn perfformio'n dda, yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Mae cynnal y systemau etifeddol presennol yn unig yn arwain at 'gostau cyfle cudd' o ran cynnal prosesau aneffeithlon. Yn ogystal, ymhen amser ni fydd y systemau'n gallu ymdopi â'r diwygiadau uchelgeisiol a'r gofynion y bydd angen eu rhoi arnynt. Ar hyn o bryd, mae costau wedi'u cynnwys ar gyfer uwchraddio a chynnal y systemau presennol yn unig yn hytrach na'u disodli, gan nad yw'n glir ar hyn o bryd pryd yn union y byddai'n rhaid i hyn ddigwydd.

| | Costau TG parhaus ar gyfer y Comisiwn (£m) | Busnes fel arfer (£m) | Gwahaniaeth (£m) |
|---|---|---|---|
| Cost ar gyfer rhedeg TG - meddalwedd datblygu | £0.15 | - | £0.15 |
| Cost ar gyfer rhedeg TG - ardystio diogelwch blynyddol | £0.03 | - | £0.03 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cost ar gyfer rhedeg TG - costau defnyddwyr | £4.28 | £3.13 | £1.15 |
| Cost ar gyfer rhedeg TG - ymgynghorwyr TG | £0.69 | - | £0.69 |
| Cost uwchraddio/cynnal systemau etifeddol | - | £0.25 | -£0.25 |
| **Cyfanswm** | **£5.15** | **£3.38** | **£1.77** |

Mae'r costau a ragwelir wedi'u llywio gan ragdybiaethau sy'n seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau o anghenion a chost y Comisiwn newydd. Fel y nodwyd uchod, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy'r cyfnod gweithredu, ac yn wir y tu hwnt i hynny, ac felly mae'n debygol y bydd rhai o'r tybiaethau cychwynnol yn bell ohoni. O ystyried mai costau rhedeg TG i ddefnyddwyr yw'r uchaf o'r costau parhaus o bell ffordd, dyma lle mae'r risg fwyaf o wahaniaeth mawr. Rydym wedi lliniaru'r risg honno drwy:

- fod yn ddarbodus yn ein hamcangyfrifon cost, er enghraifft drwy ddefnyddio costau Llywodraeth Cymru ar gyfer caledwedd/meddalwedd ar ben uchaf y raddfa gostau.

- profi'r tybiaethau gydag aelodau o broffesiwn digidol Llywodraeth Cymru.

- cynnwys uchafswm nifer y staff yn ein rhagdybiaethau.

**C. Casglu data – mae'r Bil yn rhoi cyfres o bwerau newydd i'r Comisiwn, gan gynnwys cyflwyno system well ar gyfer casglu, dadansoddi a rhannu data. Nod y drefn newydd hon, a fydd yn effeithiol ac yn gydymffurfiol, fydd sicrhau bod gwybodaeth amserol, hygyrch a pherthnasol am addysg drydyddol yng Nghymru ar gael i bawb sydd ei hangen. Gwnaethoch gytuno i ddarparu enghreifftiau o'r hyn y gallai'r drefn newydd hon o gasglu data ei olygu.**

Mae nifer o ffynonellau data yn y sector addysg drydyddol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar ba ddata y bydd y Comisiwn yn ei gasglu, ac felly nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch data ychwanegol. Fodd bynnag, drwy ddefnyddio enghraifft o ddata sydd eisoes yn cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru gallwn ddangos beth allai casglu data ei olygu a pha welliannau rydym yn gobeithio eu gwneud. Bydd y systemau casglu a defnyddio data yn hanfodol er mwyn cefnogi'r Comisiwn i gyflawni nodau'r broses ddiwygio. Bydd y systemau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r penderfyniadau pwysig y bydd y Comisiwn yn eu gwneud bob dydd.

Set fawr o ddata y gallai fod angen i'r Comisiwn ei chasglu neu gael mynediad ato yw'r data a gesglir ar hyn o bryd drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Cesglir data gweithredol yn fisol gan tua 48 o ddarparwyr, sy'n cynnwys colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith (gan gynnwys prentisiaethau a hyfforddeiaethau), a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned. Defnyddir Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru'n eang ar draws Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifiadau cyllid ac i ddyrannu cyllid i ddarparwyr a hefyd at ddibenion dadansoddi, adrodd a gwybodaeth.

Nid un system neu becyn o feddalwedd yw Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Yn hytrach, mae'n gasgliad o ffyrdd o wneud pethau ynghyd â defnyddio meddalwedd traws-swyddogaethol safonol. Cydnabyddir yn eang ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r Cofnod bod llawer o heriau'n bodoli ar hyn o bryd o ganlyniad i'r ffaith bod y Cofnod yn amgylchedd etifeddol nad yw wedi'i foderneiddio ers blynyddoedd lawer. Er enghraifft, trosglwyddir data o bob darparwr i Lywodraeth Cymru ar ffurf XML drwy borth gwe, ac yna caiff ei ddilysu'n helaeth cyn cael ei lwytho i gronfa ddata Llywodraeth Cymru os yw'n ddilys. Nid yw unrhyw gofnodion sy'n methu'r broses ddilysu yn cael eu llwytho, ac fe'u hadroddir i'r darparwr drwy'r wefan i'w hailgyflwyno. Ar hyn o bryd ceir lefel uchel o fethiannau dilysu ar gyfer y

data a gyflwynir (gan fod llawer iawn o ddata wedi'i ddyblygu). Mae'n amlwg, yn achos data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, nad oes modd 'codi a symud' y data heb fewnforio'r heriau a'r diffygion hyn hefyd.

Gallai'r system casglu data newydd ddefnyddio Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (API) ar y we fel ateb i gasglu data. Un egwyddor bwysig ar gyfer cynllunio'r system casglu data fydd lleihau'r baich diangen ar y darparwyr data a byddai system sy'n seiliedig ar API ar y we yn cyflawni hyn drwy alluogi darparwyr data i fewngofnodi a chyflwyno data, gyda dilysu awtomatig wedi'i gynnwys yn y system cyn bod y data’n cael ei dderbyn.

Yn achos y data a gesglir ar hyn o bryd drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, byddai gwella’r broses casglu data yn arwain at y canlynol:

- Ni fydd yn rhaid i ddarparwyr gynhyrchu data mewn fformat cymhleth sy’n prysur ddarfod ac sy’n wahanol i’r ffordd y mae'r rhan fwyaf ohonom yn cyflwyno data yn yr oes ddigidol.

- Bydd llai o fethiannau dilysu ar gyfer y data a gyflwynir, a fydd yn gwella effeithlonrwydd y prosesu ac yn lleihau’r gwaith i ddarparwyr.

- Bydd mwy o hyblygrwydd gan y byddai modd lleihau’n sylweddol yr amserlenni estynedig presennol sy’n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau i'r fformat casglu data.

- Bydd gwelliant yn ansawdd cyffredinol y data a byddai’r broses o rannu data gyda'r sefydliadau eraill sy'n cael ei ddefnyddio (e.e. Llywodraeth Cymru) yn symlach.

P’un a fydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn dod yn gyfrifol am gasglu data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ai peidio, mae dal i fod angen ei ddiweddaru a'i wella. Yn bwysicaf oll, pe bai prosesau mwy effeithlon a meddalwedd cyfredol yn cymryd lle'r Cofnod cyfan neu rannau ohono, byddai’n llawer haws ac yn gyflymach gwneud newidiadau i'r system a’r broses casglu data yn y dyfodol, gan leihau'r pwysau ar adnoddau a chostau a lleihau'r baich ar ddarparwyr. Byddai hefyd yn rhoi i ddefnyddwyr y data y gallu i integreiddio data ychwanegol yn y dyfodol gan arwain at ddadansoddiad mwy craff.

Rwyf wedi anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language